

Rhan Dau: Cynllun Ffioedd a Mynediad (yn ofynnol i'w gyhoeddi)

Cynllun Ffioedd a Mynediad

Enw'r sefydliad	Prifysgol Caerdydd
Hyd y cynllun ffioedd a mynediad	1 Awst 2022 i 31 Gorffennaf 2023
Adran 1 - Lefelau ffioedd	
Adran 1.1 – Lefelau ffioedd neu lefel y ffi a bennir ym mhob lleoliad (Paragraffau 88-97 yn yr arweiniad)	
Lefel y ffi	Lleoliad y cwrs
£9,000 y flwyddyn	Ar y Campws BA, BDS, BEng, BMus, BSc, BScEcon, LLB, MArch, MBBCh, MChem, MEng, MSci, MMath, MPharm, MPhys, MBiomed, MMORS, MNeuro, PCET/PGCE
£1,800 (Blwyddyn ryngosod mewn Diwydiant) - 20% o'r ffi amser llawn)	Blwyddyn allan rhngosod mewn Diwydiant BA, BDS, BEng, BMus, BSc, BScEcon, LLB, MBBCh, MChem, MEng, MSci, MMath, MPharm, MPhys, MBiomed, MMORS, MNeuro
£1,350 (Erasmus / Blwyddyn Dramor - 15% o'r ffi amser llawn)	Erasmus / Blwyddyn Dramor BA, BDS, BEng, BMus, BSc, BScEcon, LLB, MBBCh, MChem, MEng, MSci, MMath, MPharm, MPhys, MBiomed, MMORS, MNeuro

£4,500 (Blwyddyn ryngosod â gofyniad presenoldeb uwch, 50% o'r ffi amser llawn)	Blwyddyn ryngosod mewn Diwydiant MArch
Adran 1.2 - Lefelau ffioedd crynodol (Paragraffau 98-102 yn yr arweiniad)	
<p>Y ffi gyfanredol ar gyfer y cwrs llawn yw cyfanswm y ffioedd ar gyfer pob blwyddyn o'r cwrs. Efallai y bydd ffioedd yn 2022/23 yn cynyddu yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru. Os bydd ffioedd cyrsiau'n amrywio oherwydd cyfnod ar leoliad neu'n astudio dramor tra bo myfyriwr wedi'i gofrestru ym Mhrifysgol Caerdydd, bydd y rhain yn eglur pan mae'r myfyriwr yn cyflwyno cais.</p> <p>Mae gohebiaeth Prifysgol Caerdydd yn targedu darpar ymgeiswyr am le yn y Brifysgol, y myfyrwyr presennol, rhieni, staff mewn ysgolion uwchradd a cholegau gan gynnwys athrawon ac ymgynghorwyr gyrfaoedd, a staff y Brifysgol er mwyn sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cael gwybodaeth gywir, amserol a chyson. Rydym yn sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir yn cwrdd â'r gofynion a nodir yng Nghôd Ansawdd Addysg Uwch y DU gan gyfeirio'n benodol at ddylunio a datblygu cyrsiau ac adran 1.8 o'r Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) ar gyfer sicrhau ansawdd mewnol. Rydym yn ymdrechu i gydymffurfio â llythyr ac ysbryd Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 ac rydym wedi ymrwmo i ymgorffori'r holl gyngor ac arweiniad cyfraith defnyddwyr addysg uwch yn ein prosesau mewnol.</p> <p>Mae ein gweithdrefnau cwynion ac apeliadau myfyrwyr yn cwrdd â'r gofynion a nodir yng Nghôd Ansawdd Addysg Uwch y DU gan gyfeirio'n benodol at thema pryderon, cwynion ac apeliadau a gofynion Fframwaith Arfer Da yr OIA. Rydym yn ystyried deddfwriaeth defnyddwyr a chanllawiau perthnasol gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA), y Swyddfa Myfyrwyr (OfS) a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA), a'r cyd-destun cenedlaethol a sector, yn ogystal ag amgylchiadau unigol achos y myfyriwr.</p> <p>Mae'r dulliau cyfathrebu'n cynnwys:</p> <p>Gwefan</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae tudalennau penodol ar y we yn cynnwys gwybodaeth am ffioedd dysgu, cyfleoedd ariannu gan gynnwys ysgoloriaethau a bwrsariaethau, a chefnogaeth i fyfyrwyr. Mae'r tudalennau'n cynnwys dolenni i wefannau perthynol eraill gan gynnwys Cyllid Myfyrwyr Cymru/Lloegr/yr Alban/Gogledd Iwerddon, yn ogystal â chyfeirio ymgeiswyr at wybodaeth gyswllt ddefnyddiol i brifysgolion. <p>https://www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/tuition-fees</p>	

- Rydym yn parhau i ddatblygu ein Setiau Gwybodaeth Allweddol (KIS), gwybodaeth safonol am gyrsiau israddedig sydd wedi'u dylunio i fod yn gymaradwy ar draws pob sefydliad addysg uwch y DU. Mae hyn wedi sicrhau bod amrywiaeth eang o wybodaeth sy'n ymwneud yn benodol â phob cwrs astudio, a'r sefydliad yn gyffredinol, ar gael i ddarpar fyfyrwyr. Caiff pob KIS ei chyflwyno fel gwefan sy'n rhoi gwybodaeth ynghylch rhaglen astudio ac yn cynnwys manylion ynghylch; trosolwg o'r cwrs, gofynion mynediad, ffioedd dysgu, strwythur y cwrs, cyfleoedd ar gyfer lleoliadau, achrediad, dysgu ac asesu, a strwythur rhaglenni gradd. Mae'n bosibl i ddefnyddwyr ddewis eu blwyddyn mynediad i sicrhau eu bod yn gweld gwybodaeth sy'n berthnasol / fwyaf perthnasol iddynt.

Enghraifft o'n KIS: [Pensaernïaeth \(BSc/MArch\) - Astudio - Prifysgol Caerdydd](#)

Mae cynnwys y tudalennau gwe wedi'i wella'n sylweddol trwy ychwanegu mwy o wybodaeth ategol sy'n gysylltiedig â phwnc yn helpu darpar fyfyrwyr i wneud y penderfyniadau gorau posibl. Enghraifft:

[Pensaernïaeth - Astudiaeth - Prifysgol Caerdydd](#)

Deunyddiau marchnata/diwrnodau agored

- Mae'r Brifysgol yn rhoi gwybodaeth am ffioedd a chefnogaeth sydd ar gael i ddarpar fyfyrwyr mewn digwyddiadau ffisegol/rhithwir, fel diwrnodau agored, diwrnodau ymweld, ffeiriau addysg uwch a gweithgaredd ymgysylltu ag ysgolion a cholegau. Mae hefyd ar gael mewn prospectysau, pamffledi, canllaw cyllid myfyrwyr a chynghor gan staff y Brifysgol. Mae gwybodaeth wedi'i chynnwys mewn cyflwyniadau i athrawon a chynghorwyr gyrfaoedd yn ogystal â'r sgysiau ar gyllid myfyrwyr a roddir i ymgeiswyr.
- Rydym hefyd yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys Facebook, Twitter, Instagram, blogiau a YouTube i gyfathrebu â darpar fyfyrwyr a myfyrwyr presennol.
- Mae gwybodaeth berthnasol hefyd yn cael ei chyfleu i'r rhai sy'n cymryd rhan yn ein gwahanol raglenni Ehangu Cyfranogiad.

Ebost

- Bydd y rheiny sy'n gwneud cais i'r Brifysgol yn cael ebost yn cydnabod bod ei gais wedi cyrraedd ac yn darparu dolenni cyswllt i'n gwybodaeth am ffioedd ar-lein.
- Rydym yn gohebu â phob deiliad cynnig ar ffurf cylchlythyr sy'n rhoi manylion darpariaeth ysgoloriaeth a bwrsariaeth.

Mae ein llythyr ffurfiol o gynnig yn manylu ynghylch y ffioedd dysgu sy'n daladwy ar gyfer blwyddyn gyntaf y rhaglen ac yn amlinellu unrhyw gynnydd posibl mewn ffioedd ar gyfer blynyddoedd astudio dilynol. Rydym yn cyfathrebu ynghylch ffioedd drwy gydol y cyfnod astudio.

Adran 2 - Partneriaeth Myfyrwyr (Paragraffau canllaw 103-106)

Mae'r [Ffordd Ymlaen 2018-23](#) yn amlinellu ein hymrwymiad i sicrhau profiad myfyriwr addysgol rhagorol o ansawdd gyson uchel, a ysgogir gan greadigrwydd a chwilfrydedd, gydag addysgu a gwasanaethau rhagorol i wella dysgu a chefnogi bywyd myfyriwr. Trwy ein [strategaeth Addysg a Myfyrwyr ar ei newydd wedd](#) rydym yn gwneud newidiadau mewn chwe phrif faes:

- Creu cymuned ddysgu gynhwysol
- Gwellu'r amgylchedd dysgu
- Cynllunio ar gyfer dyfodol llwyddiannus i fyfyrwyr
- Gwerthfawrogi a hyrwyddo rhagoriaeth addysgu
- Cefnogi bywyd myfyrwyr a'r gymuned ddysgu
- Gwerthfawrogi ein myfyrwyr fel partneriaid.

Mae ein hagwedd tuag at ymgysylltu â myfyrwyr yn adlewyrchu egwyddorion [Wise Cymru](#)¹.

Gweithio gydag Undeb y Myfyrwyr

Mae [Siarter y Myfyrwyr](#) yn amlinellu'r hyn y gall myfyrwyr ei ddisgwyl gan y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr, a'r cyfrifoldebau sydd ar ein myfyrwyr i wneud y mwyaf o'u profiad yn y Brifysgol. Mae'n cynnwys disgwyliadau y cynigir agwedd agored, gonestrwydd, amrywiaeth ac y dethlir iaith a diwylliant Cymru. Mae'n cael ei hadolygu bob blwyddyn gan Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol i wneud yn siŵr ei bod yn berthnasol o hyd. Mae'r Brifysgol yn cefnogi Undeb y Myfyrwyr i gyflawni ei amcanion, gan gynnwys ymgysylltu â phob myfyriwr, cynnig cyfleoedd datblygu/gwirfoddoli, creu cyfleusterau o'r radd flaenaf a chynnig gweithgareddau chwaraeon, cymdeithasau a gwasanaethau cyngor annibynnol. Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau cydnabyddedig wedi'i gynnwys yn nhrawsgrifiadau gwell y Brifysgol ar gyfer myfyrwyr.

[Mae swyddogion etholedig Undeb y Myfyrwyr yn](#) cymryd rhan fel aelodau llawn o brif bwyllgorau a grwpiau strategol y Brifysgol gan gynnwys:

¹ <https://wisewales.org.uk/>

- Y Senedd - ein prif awdurdod academaidd, cyfrifol am bennu ein polisiau addysgol.
- Y Cyngor - corff llywodraethu'r Brifysgol. Mae'n gyfrifol am reoli a chynnal materion y Brifysgol yn effeithlon, gan gynnwys cyllid ac ystadau.
- Mae'r Pwyllgor Llywodraethu yn cynghori'r Cyngor ynghylch lefel y cydymffurfio gan y Brifysgol â gofynion gorfodol deddfwriaeth a rheoliadau eraill.
- Pwyllgor Polisiau ac Adnoddau – cyfrifol am graffu ar gyllid cyfalaf ar gyfer mentrau a gwerthuso effaith.
- Pwyllgor Safonau Academaidd ac Ansawdd – cyfrifol am oruchwylio cynnydd a chyrhaeddiad myfyrwyr.
- Grŵp Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg – cyfrifoldeb dros drosolwg o strategaeth Gymraeg y Brifysgol a datblygu darpariaethau Cymraeg ymhellach.
- Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant - bydd yn gyfrifol am gynghori'r Cyngor trwy'r Pwyllgor Llywodraethu ar ddatblygu a gweithredu strategaethau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaid cyfreithiol ac arferion gorau ym mhob mater sy'n ymwneud â chyfle cyfartal ac amrywiaeth.
- Grŵp Strategaeth Profiad Myfyrwyr - yn gyfrifol am oruchwylio'r strategaeth addysg a myfyrwyr.

Mae myfyrwyr sy'n swyddogion hefyd yn aelodau o'r byrddau llywio ar gyfer ein holl brosiectau sy'n wynebu myfyrwyr, gan gynnwys Canolfan Bywyd y Myfyrwyr. Mae ganddynt fynediad uniongyrchol a rheolaidd at uwch-swyddogion sy'n gwneud penderfyniadau, gan gynnwys yr Is-ganghellor ac aelodau eraill o Fwrdd Gweithredol y Brifysgol. Yn rhan o'n prosesau sicrhau ansawdd mae myfyrwyr yn aelodau ffurfiol o'r panel sefydlog sy'n ystyried yr holl newidiadau a datblygiadau o bwys i'r rhaglen, ein Pwyllgorau Adolygu a Gwella Blynyddol a'r holl Baneli Adolygiad Cyfnodol. Mae swyddogion Undeb y Myfyrwyr hefyd yn gwasanaethu ar ein paneli apeliadau Addasrwydd i Ymarfer, Cwynion, Disgyblu ac Addasrwydd i Ymarfer.

Mae'r Brifysgol yn bartner cefnogol yn ['Wythnos Siarad'](#) flynyddol Undeb y Myfyrwyr, sy'n un o uchafbwyntiau'r calendr llais y myfyrwyr. Gofynnir i fyfyrwyr 'Pe byddech chi'n rhedeg y Brifysgol, beth fyddech chi'n ei gadw a beth fyddech chi'n ei newid?'; cwestiwn sy'n cynhyrchu ystod eang o adborth adeiladol yn gyson. Gan ddefnyddio'r adborth gan fyfyrwyr a gesglir yn ystod Wythnos Siarad, mae Undeb y Myfyrwyr yn cynhyrchu Barn y Myfyrwyr ([Cyflwyniad Ysgrifenedig y Myfyrwyr \(SWS\)](#)) bob blwyddyn ar gyfer Cyngor y Brifysgol. Cytunir ar ymateb sefydliadol gan y Brifysgol i Farn y Myfyrwyr a chynllun gweithredu gan Fwrdd Gweithredol y Brifysgol, a bydd Cyngor y Brifysgol yn eu cael er mwyn craffu arnynt. Mae Grŵp Strategol Cyflwyniad Barn y Myfyrwyr yn monitro ac yn gwerthuso gweithgareddau a chamau gweithredu, ac mae'n cwrdd deirgwaith y flwyddyn o leiaf ac yn cael ei gadeirio ar y cyd gan Lywydd Undeb y Myfyrwyr a'r Rhag Is-Ganghellor dros Brofiad Myfyrwyr a Safonau Academaidd.

Rydym wedi sefydlu model prosiect partneriaeth i ddatblygu gwell dealltwriaeth o safbwyntiau myfyrwyr ynghylch materion penodol ym Marn y Myfyrwyr a llywio datblygiad polisi a newid sefydliadol. Mae pob prosiect yn cynnwys aelodau sy'n staff a myfyrwyr. Mae enghreifftiau o'r pynciau dan sylw yn cynnwys nodi gwelliannau i'r broses gwynion, deall y cymunedau dysgu a chymorth i fyfyrwyr, ac archwilio defnydd a chyfathrebu'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr yn y dyfodol yng nghyd-destun agor Canolfan Bywyd y Myfyrwyr.

Daw cyfarfod olaf Grŵp Llywio Barn y Myfyrwyr am y flwyddyn academaidd i ben gydag arddangosiad o ganfyddiadau ac argymhellion y prosiectau partneriaeth.

Llais y Myfyrwyr

Rydym yn gwerthfawrogi barn a barn ein myfyrwyr, ac mae llawer o weithgareddau llais myfyrwyr, gan weithio mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr, yn darparu cyfleoedd trwy gydol y flwyddyn i fyfyrwyr rannu eu barn am yr hyn y mae'r Brifysgol yn ei wneud yn dda a'r hyn y gall ei wneud yn well. Hefyd, mae gennym fecanweithiau i roi gwybod i fyfyrwyr a staff sut mae adborth myfyrwyr wedi dwyn newid ar draws y Brifysgol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu mecanweithiau adborth mwy ystyryth a lleol i fyfyrwyr, ac yn benodol i fyfyrwyr ar lwyddiant mecanwaith llais myfyrwyr newydd Ciplwg Caerdydd, a gyflwynwyd yn ystod 2021 i alluogi adborth a chefnogaeth myfyrwyr yn gyflymach.

Mae [system cynrychiolaeth academaidd myfyrwyr](#) yn cael ei rheoli mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr, sy'n caniatáu i fyfyrwyr sy'n gynrychiolwyr chwarae rôl bwysig yn y broses o wneud penderfyniadau ar lefel cwrs, gan dynnu ar adborth gan gorff ehangach y myfyrwyr. Mae cylch hyfforddi blynyddol ar gyfer ein cynrychiolwyr myfyrwyr wedi'i arwain gan Undeb y Myfyrwyr a'i gynnal ar y cyd â Chydlynwyr Cynrychiolwyr Myfyrwyr Ysgolion, a chynhadledd hyfforddi flynyddol. Mae cynrychiolwyr myfyrwyr yn ymgysylltu â charfannau eu rhaglenni ac yn siarad ar eu rhan mewn ystod o fforymau sefydledig mewn Ysgolion a Cholegau. Mae'r rhain yn cynnwys paneli myfyrwyr-staff a chyfarfodydd rheolaidd o gadeiryddion panel myfyrwyr. Mae'r ymglymiad hwn yn sicrhau bod llais y myfyrwr yn cael ei glywed a'i ystyried wrth wneud penderfyniadau.

Anogir myfyrwyr i roi adborth drwy nifer o fecanweithiau, naill ai'n uniongyrchol drwy offer adborth neu drwy eu cymheiriaid, sef cynrychiolwyr myfyrwyr neu'r tîm Hyrwyddwyr Myfyrwyr (gweler isod). Er enghraifft:

- Mae **paneli myfyrwyr-staff** yn galluogi bob cynrychiolydd academaidd myfyrwyr i gwrdd â'u staff yn eu Hysgol a rhannu eu profiad myfyrwyr yn rheolaidd. Cynrychiolydd myfyrwyr enwebedig sy'n cadeirio'r cyfarfodydd hyn, a chynrychiolydd myfyrwyr sy'n gwneud y cofnodion. Caiff cofnodion y paneli eu rhannu gydag Undeb y Myfyrwyr sy'n creu 'adroddiad effaith' tymhorol, yn amlinellu'r prif anawsterau

sy'n wynebu myfyrwyr yn ogystal â meysydd o gryfderau penodol. At hynny, gwahoddir cadeiryddion paneli myfyrwyr–staff i'r Byrddau Astudio er mwyn trafod adborth gan fyfyrwyr.

- **Fforymau'r Colegau:** cyfle i gadeiryddion paneli myfyrwyr–staff Ysgolion sy'n fyfyrwyr ddod ynghyd a chodi materion sydd wedi dod i'r amlwg ar baneli myfyrwyr–staff gyda swyddogion Undeb y Myfyrwyr, Deoniaid y Colegau ac aelodau eraill o staff drwy wahoddiad.
- Mae **Hyrwyddwyr Myfyrwyr** yn fyfyrwyr presennol y mae'r Brifysgol yn eu cyflogi fel asiantau newid i'n helpu ni i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o farn myfyrwyr ar faterion penodol, a sicrhau bod myfyrwyr yn ymgysylltu â ni fel partneriaid. Maent yn cael eu cefnogi gan y Ganolfan Arloesedd a Chefnogaeth Addysg (CESI). Mae'r myfyrwyr hyn wedi bod yn rhan o amrywiaeth o brosiectau, gan gynnwys dylunio methodoleg profiad defnyddiwr (UX) ar gyfer yr Adolygiad Amgylchedd Dysgu Digidol yn ogystal â darparu mewnbwn gwerthfawr i ddatblygiad yr ap myfyrwyr, gan gynyddu ymgysylltiad â'r Myfyriwr Cenedlaethol. Arolygu a hwyluso prosiectau a gweithdai partneriaeth ar gyfer amrywiol fentrau sy'n ymwneud â phrofiad myfyrwyr.
- Mae **gwerthuso modiwlau** yn rhoi adborth i fyfyrwyr ar eu holl fodiwlau trwy offeryn ar-lein hawdd ei ddefnyddio, a chytûn â ffonau symudol. Mae'r data hwn yn cynnig gwell dealltwriaeth o dueddiadau ym modlonrwydd myfyrwyr ar draws y Brifysgol ac yn helpu i amlygu blaenoriaethau o ran camau ymatebol a phriodol ar lefel Ysgol a Phrifysgol. Yn eu tro, mae cynullwyr modiwlau'n hysbysu myfyrwyr am y data gwerthuso modiwlau a'r camau a gymerir o ganlyniad i adborth myfyrwyr.
- Derbynnir ymatebion ac adborth yr **Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (NSS)** trwy'r NSS blynyddol o fyfyrwyr blwyddyn olaf israddedig. Caiff canlyniadau'r Arolwg eu harchwilio ar lefelau Ysgol, Coleg a Phrifysgol, a bydd blaenoriaethau o ran camau gweithredu a gwelliant yn cael eu nodi a'u monitro drwy Grŵp Strategol Profiad y Myfyrwyr.
- **Fframwaith Rheoli Arolygon** - Fframwaith unigol dan berchnogaeth sefydliadol sy'n sicrhau bod llais y myfyriwr yn cael ei glywed a gweithredu arno, gyda chau dolenni adborth ar bob lefel. Mae'r fframwaith yn darparu cylch symlach o ddylunio, dadansoddi, adrodd a chyhoeddi ar gyfer pob arolwg myfyrwyr ynghyd ag eglurder ar lywodraethu, cyfrifoldeb, perchnogaeth data ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol.
- Mae **Cipolwg Caerdydd** newydd ei gyflwyno yn 2021 ac mae'n gwahodd myfyrwyr i roi adborth i'r Brifysgol ynghylch sut maen nhw'n dod ymlaen bob mis trwy gyfres o chwe chwestiwn byr. Mae Cipolwg Caerdydd wedi'i integreiddio i VLE y Prifysgolion ac wedi'i fframio fel sgwrs â myfyrwyr yn hytrach nag arolwg. Adroddir canlyniadau, ac adborth cau'r ddolen, i fyfyrwyr bob mis trwy dudalen fewnrwyd.

Ochr yn ochr â'r mecanweithiau hyn, gwnaed gwelliannau sylweddol i Lais Myfyrwyr trwy rôl Swyddog Ymgyrch Llais Myfyrwyr tymor penodol. Creodd y rôl hon hunaniaeth ar gyfer Llais Myfyrwyr yng Nghaerdydd a symudodd lais myfyrwyr o ddigwyddiad unigol i gyfres o weithgareddau trwy gydol y flwyddyn. Mae hyn wedi paratoi'r ffordd ar gyfer y rhaglen waith Llais Myfyrwyr a ddechreuodd ym mis Ionawr 2021 ac sy'n ceisio radicaleiddio agwedd y Brifysgol at lais myfyrwyr dros y tair blynedd nesaf. Bydd y rhaglen waith hon yn cynnwys Grŵp Llywio Ymgysylltu â Myfyrwyr a fydd yn creu map ffordd ar gyfer llais myfyrwyr am y tair blynedd nesaf, ochr yn ochr â

phedwar prosiect uniongyrchol sy'n edrych ar ein system gwerthuso modiwlau, ein defnydd o ddata, ein dull o ddefnyddio adborth ar lefel leol, a sicrhau bod gennym strwythurau staffio ar waith i gefnogi dull mwy lleol ac ystyryth o ymdrin â llais myfyrwyr.

Mae datblygiad y FAP hefyd yn cael ei ddylanwadu trwy ystyried adborth cyfranogwyr sy'n cael ei gasglu a'i ddadansoddi'n rheolaidd fel rhan o'n rhaglenni profiad myfyrwyr gan gynnwys:

- Camu 'Mlaen
- Mentora Myfyrwyr
- Hyrwyddwyr Lles
- Mentrau cyflogadwyedd, a
- Cyfleoedd byd-eang.

Mae ein myfyrwyr hefyd yn helpu i ddarparu sawl rhaglen a gweithgaredd a nodir yn y Cynllun. Er enghraifft:

- **Lleoliadau ar gyfer datblygu Dysgu, Addysgu ac Ymchwil yng Nghaerdydd** lle mae myfyrwyr yn cael cyfle i weithio ar brosiectau i wella dysgu, addysgu ac ymchwil. Mae Prosiectau Arloesedd Addysg Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd (CUSEIP) yn galluogi myfyrwyr i weithio'n uniongyrchol gyda staff ar brosiectau gwella dysgu, fel lleoliadau dros yr haf yn y lle cyntaf.
- Mae'r **Sioe Deithiol Addysg Uwch**, a gynhelir ar y cyd â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd, yn codi ymwybyddiaeth o addysg uwch ac yn rhoi cymorth wrth gam cynnar am yrfaedd a dewisiadau pwnc. Mae ein myfyrwyr yn dylunio ac yn cyflwyno cyflwyniadau rhyngweithiol i ddisgyblion ym mlynnyddoedd 9-11. Ei nod yw codi ymwybyddiaeth o addysg uwch a'i buddiannau, ac annog disgyblion. Mae'n rhoi cyngor gyrfaoedd sy'n berthnasol i addysg uwch yn gynnar fel bod disgyblion yn gwneud dewisiadau gwybodus am TGAU ac addysg bellach.

Mae'r adborth gan fyfyrwyr a staff ynghylch y cynlluniau hyn yn gadarnhaol dros ben. Mae cydweithwyr academiaidd yn nodi effaith bwysig cael myfyrwyr ynghlwm wrth brosiectau, sy'n cynnig elfen gyfredol iddynt, a myfyrwyr yn nodi bod y cynllun yn rhoi'r cyfle iddynt fod yn bartner ar y cyd gydag academyddion ar brosiectau, yn ogystal â chynnig profiad gwerthfawr iawn o gyflogadwyedd.

Adran 3 - Grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol (Paragraffau canllaw 107-113)

Dynodwyd gan CCAUC fel rhywun heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch:

- pobl o bob oed sydd yn nau gwintel isaf Mynegai Lluosog Mynegai Cymru (WIMD40 ac ar wahân WIMD20)
- pobl o bob oed o gymdogaethau cyfranogiad isel (POLAR 4)
- myfyrwyr addysg uwch ran amser
- pobl â nodweddion gwarchoddedig
- Myfyrwyr cyfrwng Cymraeg.

Nodwyd gan y rhaglen Reaching Wider:

- o fewn dau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru:
 - pobl ifanc ôl-16
 - oedolion heb gymwysterau lefel 4, i symud ymlaen i ddarpariaeth lefel 4.
- a Chymru gyfan:
 - plant sy'n derbyn gofal
 - ymadawyr gofal
 - gofalwyr ym mhob grŵp oedran

Wedi'i nodi gan Brifysgol Caerdydd fel myfyriwr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, myfyriwr sy'n / sydd ag:

- anabledd (gan gynnwys awtistiaeth)
- ffoaduriaid/ceiswyr lloches
- cyn-filwyr y lluoedd arfog
- wedi ymddieithrio o'r teulu
- rhieni heb eu haddysgu hyd at lefel Addysg Uwch
- enillion blynyddol gros yr aelwyd, yr Adran Gwaith a Phensiynau (<£35k ar hyn o bryd)
- oedran – aeddfed
- cartref BAME

Adran 4 - Amcanion fel y maent yn ymwneud â chefnogi cyfle cyfartal a hyrwyddo AU
(Paragraffau canllawiau 114-148)

Adran 4.1 - Cydraddoldeb Cyfle

Amcan 1	Codi dyheadau a chynyddu mynediad at AU ymhlith grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.
Amcan 2	Sicrhau bod cyfraddau parhad grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn unol â gweddill poblogaeth y myfyrwyr.
Amcan 3	Cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg trwy wella cymuned, diwylliant a darpariaeth Cymraeg y Brifysgol.
Amcan 4	Gwella cyflogadwyedd myfyrwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol

Adran 4.2 - Hyrwyddo addysg uwch

Amcan 1	Parhau i ganolbwyntio ar ymgysylltu byd-eang, cymunedol a dinesig sy'n effeithiol ac o ansawdd uchel.
Amcan 2	Darparu amgylchedd dysgu ac addysgu o ansawdd uchel.
Amcan 3	Canolbwyntio ar wella sy'n gwella profiad y myfyrwyr.
Amcan 4	Parhau i gynnig cwricwla a chyfleoedd ehangach i ehangu cyflogadwyedd myfyrwyr

Awdurdodi'r cais am ffi a chynllun mynediad i CCAUC (sy'n ofynnol i'w gyhoeddi)


Wrth awdurdodi ceisiadau ffioedd a chynllun mynediad, mae'r corff llywodraethu:

- i. yn cadarnhau ei fod yn parhau i fod yn sefydliad sy'n darparu addysg uwch yng Nghymru ac yn elusen.
- ii. wedi gweld ac ystyried tystiolaeth briodol i ategu'r datganiadau sy'n cael eu gwneud yn y cais hwn.
- iii. yn cadarnhau y bu ymgynghori priodol gyda'i fyfyrwyr, y rhai sy'n astudio yn y sefydliad ac mewn darparwyr eraill lle darperir addysg ar ei ran.
- iv. yn cadarnhau bod yr wybodaeth a ddarperir yn y cais hwn am gynllun ffioedd a mynediad yn gywir ac yn gyfredol, ar adeg ysgrifennu, ac yn seiliedig ar ddata gwiriadwy.
- v. yn cadarnhau: **[dilëwch un neu fwy o osodiadau, fel sy'n briodol]**
 - a. ei bod hi'n dderbyniol i CCAUC ddefnyddio gwybodaeth/data ariannol, ansawdd a/neu wybodaeth/data arall sydd ganddo am sefydliad sy'n rheoledig ar hyn o bryd, p'un a ddarparwyd yr wybodaeth/y data yn wreiddiol at ddibenion rheoleiddio o dan Ddeddf 2015 neu beidio;
 - ~~b. nad yw hi'n dderbyniol i CCAUC ddefnyddio gwybodaeth/data ariannol, ansawdd a/neu wybodaeth/data arall sydd ganddo am sefydliad sy'n rheoledig ar hyn o bryd at ddibenion rheoleiddio o dan Ddeddf 2015 neu beidio; ac~~
 - ~~c. mae'n yn cyflwyno gwybodaeth/data mwy diweddar, cyfoes, newydd i lywio asesiad CCAUC.~~
- vi. yn deall bod CCAUC yn cadw'r hawl i ymweld â'r sefydliadau i ddeall yn well gymhwysedd sy'n gysylltiedig â threfnu a rheoli materion ariannol, y data a gyflwynwyd ynghylch y cynlluniau ffioedd a mynediad a/neu ansawdd yr addysg a ddarperir am, neu ar ran y sefydliad.
- vii. ei fod yn deall bod rhaid iddo ddarparu, i CCAUC neu asiant CCAUC, wybodaeth, cymorth a mynediad i'w gyfleusterau a chyfleusterau cyrff eraill sy'n darparu addysg uwch ar ei ran.
- viii. ei fod yn deall y caiff CCAUC gynnal, neu drefnu i asiant gynnal, adolygiad sy'n ymwneud ag ansawdd yr addysg a ddarperir gan, neu ar ran sefydliad yr ymgeisydd, a bod rhaid i'r corff llywodraethu roi ystyriaeth i unrhyw gyngor a roddir iddo gan CCAUC neu gorff a benodir gan CCAUC at y diben hwnnw.

- ix. yn cadarnhau bod pob addysg a ddarperir ganddo, neu ar ei ran, beth bynnag fo lefel neu leoliad y ddarpariaeth, wedi'u cymryd i ystyriaeth yn y cais cynllun ffioedd a mynediad hwn.
- x. ei fod yn cadarnhau bod y sefydliad yn wynebu risg isel o fethiant ar sail ariannol yn ystod y tymor canolig i'r tymor hir.
- xi. ei fod yn cadarnhau yr archwiler y cyfrifon bob blwyddyn gan archwilydd cofrestredig ac nad yr archwilydd cofrestredig hwnnw yw'r un cwmni/unigolyn a baratôdd y cyfrifon.
- xii. ei fod yn deall bod y sefydliad yn cydymffurfio â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) ar gyfer addysg uwch.
- xiii. ei fod yn deall bod rhaid anrhydeddu unrhyw ymrwymadau ariannol i fyfyrwyr a wnaed yng nghynllun ffioedd a mynediad, fel y'i cymeradwywyd gan CCAUC.
- xiv. cadarnhau y bydd yn parhau i fuddsoddi yr un gyfran o incwm ffioedd israddedig llawn-amser i hyrwyddo cyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch ac nid lleihau buddsoddi i hyrwyddo cyfle cyfartal a fwriedir i gefnogi yn unig sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch.
- xv. yn cadarnhau y bydd yn cynnal lefelau cymorth i fyfyrwyr.
- xvi. yn cadarnhau y bydd y sefydliad yn sicrhau y gellir sicrhau bod copi o'r cynllun ffioedd a mynediad yn hygyrch i'w fyfyrwyr mewn unrhyw fformat.
- xvii. yn cadarnhau y bydd y sefydliad yn amlwg yn cyfeirio ei fyfyrwyr at brosesau cwynion CCAUC.

Cyflwyno Cynllun Ffioedd a Mynediad i CCAUC²	
Dyddiad cymeradwyo gan y Corff Llywodraethu:	16 Mehefin 2021

² Dylai cynlluniau ffioedd a mynediad a gyhoeddir ar wefannau sefydliadau ond cynnwys fersiynau a gyflwynir i'w cymeradwyo gan CCAUC.

Llofnod awdurdodedig y Corff Llywodraethu:	
Dyddiad:	16 Mehefin 2021
Cyflwyno ffi derfynol a chynllun mynediad unwaith y bydd CCAUC wedi cadarnhau nad oes ganddo unrhyw faterion pellach (lle bo hynny'n berthnasol)	
Dyddiad cymeradwyo gan y Corff Llywodraethu:	
Llofnod awdurdodedig y Corff Llywodraethu:	
Dyddiad:	

Cynllun ffioedd a mynediad 2022/23

Lleoliad, math, lefel, gwybodaeth am bartneriaeth a rhagolwg niferoedd myfyrwyr ar gyfer yr holl weithgaredd a reolir gan yr ymgeisydd

Institution name: Prifysgol Caerdydd
 Institution UKPRN: 10007814

Please review the messages in red to the right of the table

Rhowch ddata yn y celloedd melyn. Mae'r holl gelloedd eraill wedi'u cloi. Mae hyn er mwyn atal y daenlen rhag newid yn ddamweiniol. Os oes angen i chi weld y formwlâu yn unrhyw un o'r celloedd hyn yna mae'n bosibl datgloi pob dalen trwy fynd i'r rhuban Adolygu a dewis taflen Unprotect. Y cyfrinair yw FAP22.

Gellir gweld canllawiau ar gyfer cwblhau'r tabl hwn ar dudalennau 181-191 o'r Canllawiau Ffioedd a Chynllun Mynediad

Rhes	Enw'r sefydliad	Rhif Cyfeirnod Darparwr y DU (UKPRN)	Cyfeiriad lleoliad	Math o weithgaredd (Dewiswch o'r gwymplen neu os 'arall' teipiwch i mewn)	Lefel astudio (Dewiswch o'r gwymplen neu os 'arall' teipiwch i mewn)	Cyfanswm nifer a ragwelir o fyfyrwyr	Gweithgaredd a ddarperir gan bartner?	Cwblhewch y colofnau hyn dim ond os yw'r partner yn cyflwyno'r gweithgaredd		
								A yw'r partner yn elusen?	Math o bartneriaeth (Dewiswch o'r gwymplen)	Dyddiad y cytundeb partneriaeth DD/MM/BBBB
	Enw'r darparwr sy'n cyflwyno cysiau y mae'r ymgeisydd yn eu rheoli (enw'r ymgeisydd neu'r partner, pa un bynnag sy'n cyflwyno'r ddarpariaeth)	(ar gyfer sefydliadau yn y DU, yn wag ar gyfer sefydliadau y tu allan i'r DU neu heb UKPRN)	Rhaid rhestru pob campws ym mhob sefydliad lle darperir gweithgareddau ar wahân.	Dysgu ac addysgu, ymchwil ac ati (nodwch os gwelwch yn dda)	Ôl-raddedig, israddedig, addysg bellach, arall (rhowch fanylion)		Ydy / Nac ydy	Ydy / Nac ydy		
1	Prifysgol Bangor	10007857	Bangor, Gwynedd, LL57 2DG	Dysgu ac addysgu	Israddedig	69	Y	Y	Cydweithredol – ar	22/03/19
2	Coleg Bedyddwyr De Cymru		54 Heol Caerdydd, Caerdydd, CF5 2YJ	Dysgu ac addysgu	Israddedig	13	Do	Y	Masnachfrait	02/03/17
3	Prifysgol Normal Beijing, Tsieina		19 Xinjiekou Outer St, Haidian, Beijing, Tsieina, 100875	Dysgu ac addysgu	Israddedig	18	Y	Naddo	Cydweithredol – ar	01/09/15
4	Prifysgol Caerdydd	10007854	Prif Safle, Caerdydd CF10 3AT	Dysgu ac addysgu / Ymchwil	Israddedig/Ôl-raddedig	16400	Naddo			
5	Prifysgol Caerdydd	10007854	Safle UHW Caerdydd, Heath Park Way, Caerdydd CF14 4XW	Dysgu ac addysgu / Ymchwil	Israddedig/Ôl-raddedig		Wedi'i gynnwys yr	N		
6	Prifysgol Caerdydd	10007854	Ysbyty Velindre; Heol Velindre, Caerdydd CF14 2TL	Dysgu ac addysgu / Ymchwil	Israddedig/Ôl-raddedig		Wedi'i gynnwys yr	N		
7	Prifysgol Caerdydd	10007854	Ysbyty Llandochoau; Heol Penlan, Llandochoau, Penarth CF64 2XX	Dysgu ac addysgu / Ymchwil	Israddedig/Ôl-raddedig		Wedi'i gynnwys yr	N		
8	Prifysgol Caerdydd	10007854	Parc Iechyd Prifysgol Kier Hardie; Heol Aberdare, Merthyr Tudful CF48 1AZ	Dysgu ac addysgu / Ymchwil	Israddedig/Ôl-raddedig		Wedi'i gynnwys yr	N		
9	Prifysgol Caerdydd	10007854	Adeilad yr Orsaf Wybodaeth, Queensway, Casnewydd;	Dysgu ac addysgu / Ymchwil	Israddedig/Ôl-raddedig		Wedi'i gynnwys yr	N		
10	Prifysgol Leuven		Oude Markt 13, 3000 Leuven, Gwlad Belg	Ymchwil			Do	N	Cydweithredol – ar	41904
11	Prifysgol Xiamen		422 Siming S Rd, Ardal Siming, Xiamen, Fujian, Tsieina, 361005	Ymchwil			Do	N	Cydweithredol – ar	42692
12	Universidade Estadual de Campinas (Unicamp)		Cidade Universitária Zeferino Vaz - Barão Geraldo, Campinas - SP, 13083-970, Brasil	Ymchwil			Do	N	Cydweithredol – ar	43445
13	Prifysgol Bremen		Bibliothekstraße 1, 28359 Bremen, yr Almaen	Ymchwil			Do	N	Cydweithredol – ar	43532
14	Prifysgol Namibia		Windhoek, Namibia	Ymchwil			Do	N	Cydweithredol – arall	
15	Canolfan Maes Danau Girang		Noddfa Bywyd Gwylt Kinabatangan Isaf, Sabah, Malaysia	Ymchwil			Y	N	Cydweithredol – arall	
16	Sefydliad Catalysis Caerdydd		Yr Ysgol Cerneg, Prifysgol Caerdydd, Prif Adeilad, Plas y Parc, Caerdydd CF10 3AT	Ymchwil			Naddo			
17	Sefydliad Ymchwil Troseddu a Diogelwch		Ail Lawr, Friary House, Heol y Brodyr Llwydion, Caerdydd, CF10 3AE	Ymchwil			N			
18	Sefydliad Ymchwil Arloesedd Data		Adeilad Trevithick, The Parade, Caerdydd, CF24 3AA	Ymchwil			N			
19	Sefydliad Ymchwil Systemau Ynni		Adeilad y Frenhines, 5 The Parade, Caerdydd CF24 3AA	Ymchwil			N			
20	Sefydliad Ymchwil Bôn-gelloedd Canser Ewropeaidd		Adeilad Hadyn Ellis, Heol Maendy, Caerdydd, CF24 4HQ	Ymchwil			N			
21	Sefydliad Ymchwil y Niwrowyddorau ac Iechyd Meddwl		Adeilad Hadyn Ellis, Cathays, Caerdydd, CF24 4HQ	Ymchwil			N			
22	Sefydliad Ymchwil Mannau Cynaliadwy		33 Plas y Parc Caerdydd CF10 3BA	Ymchwil			N			
23	Sefydliad Ymchwil Imiwedd Systemau		Adeilad Tenovus, Caerdydd, CF14 4XN	Ymchwil			N			
24	Sefydliad Ymchwil Dŵr		Adeilad Syr Martin Evans, Rhodfa'r Amgueddfa, Caerdydd, CF10 3AX	Ymchwil			N			